Mae'n ddrwg gennym nad yw tudalen gyfan yr YHA yng Nghymru wedi ei chyfieithu ar ein gwefan. Ar hyn o bryd, nid yw ein gwefan yn cefnogi cynnwys dwyieithog. Yn y ddogfen hon ceir cynnwys y dudalen lawn yn Gymraeg.

# YHA yng Nghymru

Mae gan Gymru ei hanes, treftadaeth, iaith, tirweddau, cymunedau a Llywodraeth unigryw ei hun.

Er mwyn inni gefnogi pobl a chymunedau yng Nghymru'n well, mae angen inni gydnabod hyn mewn ffordd nad ydym wedi gwneud yn y gorffennol. Mae arnom angen strategaeth i Gymru sydd wedi'i theilwra i Gymru a'i chryfderau, heriau a blaenoriaethau.


## Yr hanes hyd yma

Ym mis Gorffennaf 1929, teithiodd saith ffrind o gangen Lerpwl o sefydliad Holiday Fellowship i'r Almaen er mwyn cael gwybod beth oedd hanfod aros mewn hosteli ieuenctid. Roeddent yn awyddus i ddod â'r syniad i Brydain, felly aethant ati i sefydlu'r hostel arbrofol gyntaf yn Neuadd Pennant yng ngogledd Cymru, mewn pryd am y Nadolig.

Heddiw, gall yr YHA fod yn falch o'i hanes, ac mae'n rhedeg 21 o hosteli yng Nghymru – tua 15% o rwydwaith yr elusen. Mae'r eiddo hyn yn arwyddocaol yn lleol ac maent yn cynnig mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog Cymru. Rydym yn falch i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflwyno gogoniant Cymru i ymwelwyr, trwy dwristiaeth gynaliadwy.

Mae gan yr YHA rôl hefyd o ran cyflwyno pobl sy'n byw yng Nghymru i'r mudiad hostela ehangach, boed hynny dros y ffin yn Lloegr neu'n ehangach gyda'n partneriaid rhyngwladol ledled Ewrop a'r byd.

Rydym ni eisiau gwneud mwy dros y bobl sy'n byw a gweithio yng Nghymru.




↓ Strategaeth YHA Cymru (PDF, 2.3MB)

## Ein strategaeth i gynnig antur am y tro cyntaf ac am oes i bobl a chymunedau yng Nghymru

Diolch am ymgysylltu â'r strategaeth i'r YHA yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

Rydych chi wedi darllen ein haddewidion ni. Beth fyddwch chi'n addo? Anfonwch neges e-bost at strategaethcymru@yha.org.uk.